# Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | **Mehefin 2016** |
| **Dyddiad Adolygu:** | **Gorffennaf 2017** |
| **Awdur:** | **Anne Pitman**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr**<br><br>**Rachel Victor**<br>**Uwch Ymgynghorydd Adnoddau Dynol** |
| **Lleoliad y Polisi:** | **BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support** |
| **Cymeradwywyd y Polisi Gan:** | **Tîm Rheoli'r Coleg –**<br><br>**Bwrdd y Gorfforaeth -** |

Os hoffech chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, gael y ddogfen hon mewn fformat arall – print bras, sain, copi electronig neu yn Saesneg, cysylltwch â'r:

Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr: Anne Pitman
E-bost: anne.pitman@gcs.ac.uk

## MYNEGAI

**Adran Teitl**

**1.** Cyd-destun

**2.** Cwmpas

**3.** Datganiad o Ddiben

**4.** Corff y Polisi

4.1 Staff Dynodedig â Chyfrifoldeb am Ddiogelu

4.2 Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plant neu Oedolion Agored i Niwed

4.2.1 Cam-drin Corfforol
4.2.2 Cam-drin Emosiynol
4.2.3 Cam-drin Rhywiol
4.2.4 Esgeulustod
4.2.5 Cam-drin Seiber
4.2.6 Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
4.2.7 Cam-drin Domestig
4.2.8 Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
4.2.9 Meddiant gan Ysbryd
4.2.10 PREVENT
4.2.11 Hunanladdiad
4.2.12 Priodas Dan Orfod
4.2.13 Cam-drin Ariannol/Materol

4.3 Ymateb i Honiad, Canllawiau i Staff a Myfyrwyr

4.4 Cofnodi Honiad bod Myfyriwr wedi Cam-drin Myfyriwr Arall

4.5 Cofnodi a Delio â Honiadau o Gam-drin yn erbyn Aelodau o Staff

**5.** Dogfennau Cysylltiedig

**6.** Yr Iaith Gymraeg

**7.** Atodiad 1 – Ffurflen CP1
Atodiad 2 – Canllawiau i Staff sy'n Delio â Honiad gan Fyfyriwr

## 1. Cyd-destun

Mae gan Goleg Gŵyr Abertawe ddyletswydd statudol a moesol i hyrwyddo a diogelu lles pob un o'i fyfyrwyr o dan 18 oed ac oedolion agored i niwed.

## 2. Cwmpas

Mae’r Polisi yn berthnasol i bob myfyriwr o dan 18 oed, pob oedolyn agored i niwed, pob myfyriwr sy’n hŷn na 18 os oes pobl ifanc dan oed neu oedolion agored i niwed yn yr aelwyd lle honnir bod cam-drin wedi digwydd a phob aelod o staff yn ddieithriad.

Mae’r polisi yn sicrhau bod pob un o’r honiadau yn cael eu cyfeirio at un o’r Swyddogion Diogelu Dynodedig, a fydd yn gweithredu arnynt.

## 3. Datganiad o Ddiben

Diben y Polisi, Gweithdrefnau a Hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed, yw sicrhau bod y coleg yn darparu amgylchedd dysgu diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Mae’r coleg yn ymrwymedig i:

a. Codi ymwybyddiaeth er mwyn i staff allu adnabod plant neu oedolion agored i niwed sydd mewn perygl o niwed sylweddol

b. Codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a pherthnasau â phobl ifanc

c. Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc ac oedolion agored i niwed o bwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein

ch. Codi ymwybyddiaeth o’r effaith y gall cyffuriau ac alcohol ei chael a’r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc

d. Codi ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr o effaith bwlio

dd. Codi ymwybyddiaeth o Strategaeth PREVENT

e. Darparu gweithdrefnau clir ar gyfer cofnodi pryderon

f. Sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a delio â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff

ff. Recriwtio staff yn ddiogel

## 4. Corff y Polisi

Trwy’r Polisi a’r Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed, ceir cyfeiriadau at ‘blant a phobl ifanc’. Defnyddir y term hwn i olygu'r ‘rhai o dan 18 oed’. Mae’r coleg yn cydnabod bod rhai oedolion hefyd yn agored i gael eu cam-drin, ac felly bydd y polisi hwn yn cyfeirio at oedolion sy’n agored i niwed hefyd. Mae’r polisi diogelu yn codi ymwybyddiaeth o ymddygiad pobl ifanc hefyd. Mae’r coleg yn ymrwymedig i sicrhau ei fod yn:

a. Darparu amgylchedd dysgu diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

b. Adnabod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy’n dioddef, neu’n debygol o ddioddef niwed sylweddol, a chymryd camau priodol.

c. Sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer cofnodi a delio â honiadau o gam-drin.

ch. Sefydlu amserlen hyfforddi glir i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant ac yn gyfarwydd â'r Polisi a’r Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed.

d. Rhoi cymorth priodol i fyfyrwyr sydd wedi cael eu cam-drin. Er enghraifft, cynnig gwasanaethau cwnselydd/mentor mewnol iddynt neu eu hatgyfeirio i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

dd. Rhoi cyfle i bobl ifanc ac oedolion agored i niwed fynychu sesiynau tiwtorial ar gyffuriau, alcohol, seiberfwlio, cam-drin domestig a pherthnasau.

e. Recriwtio staff yn ddiogel drwy wiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cael geirdaon a’u gwirio, a chynnal gwiriadau adnabod.

f. Sicrhau bod yr holl aelodau o staff sy’n gweithio i Goleg Gŵyr Abertawe yn ymwybodol o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 yn ystod y brif raglen sefydlu a’i bod hi’n drosedd i rywun hŷn na 18 oed gael perthynas â phlentyn o dan 18 oed os yw’r unigolyn hwnnw mewn swydd gyfrifol sy’n gysylltiedig â’r plentyn hwnnw, hyd yn oed os yw’r berthynas yn gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol os yw’r plentyn mewn addysg amser llawn ac mae’r unigolyn yn gweithio yn yr un sefydliad â’r plentyn, hyd yn oed os nad yw’n addysgu’r plentyn.

Wrth ddatblygu’r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed, mae’r coleg wedi dilyn ac ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), Byrddau Lleol Diogelu Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Os oes pryderon bod plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed mewn perygl o gael niwed sylweddol, bydd y coleg yn atgyfeirio’r pryderon hynny i Wasanaethau Cymdeithasol a/neu’r Heddlu.

### 4.1 Staff Dynodedig â Chyfrifoldeb am Ddiogelu

Mae’r corff llywodraethu wedi penodi:

- Carol Green
- Chantal Patel
- Ray Singh

Fel llywodraethwyr â chyfrifoldeb arbennig am faterion yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, byddant yn dilyn hyfforddiant priodol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau allanol eraill fel y bo’n briodol. Caiff yr holl faterion sy’n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed eu cyfeirio at y llywodraethwyr penodedig bob tymor.

Bydd aelod o Dîm Rheoli'r Coleg yn bennaf gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Caiff ei gefnogi gan Swyddogion Diogelu dynodedig.

Yr aelodau o staff dynodedig yw:

1. **Anne Pitman** (Prif Swyddog Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed) – Ffôn 01792 284223 / 01792 890700 est: 4128
2. **Angela Clarke** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed) – Ffôn 01792 284077
3. **Ceri Lowe** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed) – Ffôn 01792 284237
4. **Carol Jones** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed) – Ffôn 01792 890774
5. **Julie Glass** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed) – Ffôn 01792 890700 est: 2221

Bydd yn ofynnol i bob Swyddog Diogelu Dynodedig ddiweddaru ei hyfforddiant bob blwyddyn.

Bydd Bwrdd y Gorfforaeth, y Pennaeth a'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed yn cael hyfforddiant i ymgyfarwyddo â materion a chyfrifoldebau yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r coleg. Bydd staff yn diweddaru eu hyfforddiant bob tair blynedd o leiaf.

Bob blwyddyn bydd y Corff Llywodraethu a'r Uwch Grŵp Rheoli yn cael adroddiad blynyddol ar faterion a dyletswyddau yn ymwneud â diogelu.

Bydd yr aelodau o staff dynodedig yn cadw cofnod o'r holl honiadau a phryderon a wnaed boed y rheini gan fyfyrwyr neu staff, neu ffynonellau eraill. Bydd pob sgwrs ag asiantaethau allanol yn ymwneud â'r honiadau a'r pryderon hyn yn cael ei chofnodi.

## 4.2 Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plant neu Oedolion Agored i Niwed

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn neu oedolyn agored i niwed trwy achosi niwed, neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plant neu oedolion agored i niwed gael eu cam-drin yn eu teulu neu mewn lleoliad sefydliadol gan bobl maen nhw'n eu hadnabod neu, yn llai aml, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef cam-drin neu esgeulustod a cheisio diogelwch trwy Gynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol. Gallai oedolyn agored i niwed ddioddef cam-drin neu esgeuluso a bydd angen ei amddiffyn trwy Gynllun Oedolion Agored i Niwed rhyngasiantaethol.

### Diffiniad o Oedolyn Agored i Niwed[1]:

Mae Canllawiau Cynulliad Cymru, 'Mewn Dwylo Diogel' yn dweud:

[1] Datblygwyd o 'Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Ar Waith yng Nghymru 2000'

*Mae oedolyn agored i niwed yn berson 18 oed neu hŷn sydd angen, neu a allai fod angen, gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch ac nad yw, o bosibl, yn gallu gofalu am ei hun, neu ddim yn gallu amddiffyn ei hun rhag achosion difrifol o niwed neu ecsploetiaeth.*

Gall y diffiniad hwn gynnwys unigolyn:

- ag anableddau dysgu;
- â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys dementia;
- hŷn ag anghenion cymorth / gofal;
- sy'n gorfforol eiddil neu sydd â salwch cronig;
- ag anabledd corfforol neu synhwyraidd;
- sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol;
- ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Mae amddiffyn oedolion yn ei hun yn wasanaeth gofal cymunedol. Dylai oedolion agored i niwed sy'n cael eu cyfeirio ar gyfer amddiffyn oedolion ac na wyddid amdanynt yn flaenorol (er enghraifft gan y Gwasanaethau Cymdeithasol), elwa oherwydd y gwasanaethau amddiffyn oedolion. Dylai gweithwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfeirio at y canllawiau risg i annibyniaeth yn Arweiniad Cynulliad Cymru: Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal.

Bydd natur ddiamddiffyn unigolyn yn dibynnu ar ei amgylchiadau. Mae llawer o ffactorau rhagdueddol a all gynyddu'r tebygrwydd o gam-drin.

Mae'r Coleg yn cydnabod y canlynol fel diffiniadau o gam-drin[2]

### 4.2.1 Cam-drin Corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolyn agored i niwed mewn ffordd arall. Gall plentyn gael ei niweidio'n gorfforol hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n achosi salwch i'r plentyn yn ei ofal. Gellir disgrifio'r sefyllfa hon fel salwch wedi'i ffugio neu wedi'i achosi gan ofalwr.

### 4.2.2 Cam-drin Emosiynol

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol dros amser i'r graddau lle achosir effeithiau niweidiol difrifol a chyson i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gallai olygu cyfleu'r syniad i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu fod neb yn ei garu, ei fod yn annigonol neu â gwerth dim ond os yw'n bodloni anghenion unigolyn arall. Gall gynnwys beichio plentyn â disgwyliadau

[2] Datblygwyd o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 ac Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Ar Waith yng Nghymru 2000, yr hawl i ddewis Deddf (Amddiffyn Sifil) 2007, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2008) *Pwy ydych chi'n ei weld?*, Protocol FGM Cymru Gyfan 2011

anaddas i'w oed neu ei ddatblygiad. Gall gynnwys peri i blentyn deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, er enghraifft, trwy orfod bod yn dyst o fewn y cartref i gam-drin domestig neu drwy gael ei fwlio. Gall hefyd olygu cam-fanteisio ar blant neu eu llygru. Mae elfen o gam-drin emosiynol yn perthyn i bob math o gam-drin, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

### 4.2.3 Cam-drin Rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithredoedd olygu cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddio i gorff y plentyn. Gallan nhw fod yn weithredoedd nad ydynt yn cynnwys cyffwrdd, fel cynnwys plant yn y broses o edrych ar ddeunyddiau pornograffig neu eu cynhyrchu, o wylio gweithredoedd rhywiol neu o annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.

Mae cam-drin rhywiol tuag at oedolion agored i niwed yn cynnwys trais ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn agored i niwed wedi cydsynio iddynt a/neu y gorfodwyd iddo gydsynio iddynt.

### 4.2.4 Esgeulustod

Esgeulustod yw methiant cyson i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn sy'n debygol o arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall olygu methiant rhiant neu ofalwr i ddarparu digon o fwyd, cysgod neu ddillad, methiant i amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu fethiant i sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol addas. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn neu oedolyn agored i niwed, neu fethu ag ymateb iddynt.

**Diffiniad o Esgeuluso Plant wedi'i dynnu o'r ddogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2015**

4.2.4.1 Mae **pedwar prif gategori** o ran esgeuluso plant: **esgeulustod corfforol, addysgol, emosiynol a meddygol**. Mae astudiaeth 'nifer yr achosion' a gynhaliwyd gan yr NSPCC yn y DU yn dangos mai esgeulustod oedd y math mwyaf cyffredin o gam-drin yn y teulu ar gyfer pob grŵp oedran, ac esgeuluso plant oedd y prif reswm pam roedd gan blant yng Nghymru gynllun amddiffyn plant.

Gall achosi toreth o broblemau iechyd ac iechyd meddwl gan gynnwys oedi yn eu datblygiad, anawsterau emosiynol ac ymddygiad, IQ is a chyflawni'n wael yn yr ysgol ac anawsterau wrth wneud ffrindiau a chynnal perthynas.

4.2.4.2 Mae **esgeulustod corfforol** yn fethiant i ddarparu ar gyfer anghenion corfforol sylfaenol plentyn. Fel arfer mae'n golygu nad yw rhiant neu ofalwr yn darparu digon o fwyd neu fwyd o safon, dillad o'r math a'r maint cywir neu le diogel i fyw, chwarae a chysgu. Gall hefyd gynnwys gadael plentyn a goruchwyliaeth annigonol neu amhriodol, sy'n arwain at friwiau, cleisiau, llosgiadau ac anafiadau eraill.

4.2.4.3 Mae **esgeulustod addysgol** yn golygu methu â sicrhau bod plentyn yn derbyn addysg ddigonol ac addas a pheidio â chefnogi addysg plentyn.

4.2.4.4 Gall **esgeulustod emosiynol** neu esgeulustod seicolegol gynnwys: anwybyddu presenoldeb neu anghenion plentyn, methiant cyson i ysgogi, annog neu ddiogelu plentyn, gwrthod plentyn a pheidio â dangos cariad/serch yn gyson ac yn amserol, ynysu plentyn, sef nid yw'r plentyn yn cael cyswllt cymdeithasol normal â phlant ac oedolion eraill.

4.2.4.5 Mae **esgeulustod meddygol** yn fethiant i ddarparu gofal iechyd priodol i blentyn. Efallai na fydd rhiant yn gweld pan fydd angen sylw meddygol ar blentyn, efallai y bydd yn gwrthod gofal meddygol i blentyn neu ddim yn cychwyn neu ddim yn rhoi'r driniaeth a argymhellwyd yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn hefyd yn cynnwys esgeulustod deintyddol, lle mae gan blentyn efallai ddannedd drwg iawn a rheini heb gael sylw.

### 4.2.5 Cam-drin Seiber [3]

**Mae dau fath o gam-drin seiber:**

***1. Cam-drin Seiber Rhywiol***

Fel arfer mae hyn yn golygu magu perthynas amhriodol â pherson ifanc drwy sgwrsio mewn ystafelloedd sgwrsio ar-lein.

Mae troseddwyr rhyngrwyd yn camarwain pobl ifanc i gael perthynas rywiol droseddol â nhw drwy fodloni eu hawydd i gael eu gwerthfawrogi, eu deall, cymryd risgiau a dysgu am ryw.

Mae bron pob dioddefwr yn mynd o’i wirfodd i gwrdd â throseddwyr rhyngrwyd a chael rhyw gyda nhw. Fodd bynnag, mae’r rhain yn droseddau rhyw sy’n cymryd mantais ar bobl ifanc amhrofiadol ac agored i niwed.

Mae troseddwyr rhyngrwyd yn targedu pobl yn eu harddegau sy’n fodlon sgwrsio am ryw ar-lein. David Finkelhor et al (2008)

Mae pob llun sy’n dangos plant mewn sefyllfa rywiol ar y rhyngrwyd ac ar dechnoleg ffôn symudol yn cael ei ystyried yn achos o gam-drin.

***2. Bwlio***

Defnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg ffôn symudol i fwlio rhywun ar-lein neu ddefnyddio ei ffôn symudol i ffilmio athrawon at bwrpas bwlio.

Byddai'r sawl sy'n bwlio yn cael ei drin yn ôl Gweithdrefnau Disgyblu Coleg Gŵyr Abertawe.

[3] Datblygwyd o Plymouth.gov.uk

### 4.2.6 Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Ystyr camfanteisio'n rhywiol ar blant yw gorfodi neu gamarwain plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol.

Mae'n fath o gam-drin rhywiol sy'n cynnwys cyfnewid rhyw fath o dâl a allai gynnwys arian, ffôn symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'diogelwch' neu anwyldeb.

Mae natur ddiamddiffyn y person ifanc a'r broses paratoi i bwrpas rhyw yn golygu na all y person ifanc weld natur gamfanteisiol y berthynas ac nid yw mewn sefyllfa i roi cydsyniad gwybodus.

### 4.2.7 Trais a cham-drin domestig: diffiniad newydd

Yn ôl y diffiniad trawslywodraethol, trais a cham-drin domestig yw:

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n bygwth, trais neu gam-drin rhwng y rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, ni waeth am eu rhyw na'u rhywioldeb. Gall hyn gwmpasu'r mathau canlynol o gam-drin, ond nid dim ond y rhain:

- seicolegol
- corfforol
- rhywiol
- ariannol
- emosiynol

#### Ymddygiad rheoli

Mae ymddygiad rheoli yn golygu amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud person yn israddol a/neu yn ddibynnol drwy eu gwahanu oddi wrth ffynonellau o gymorth, gan fanteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, eu hamddifadu o'r dulliau sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebiad a dianc a rheoli eu hymddygiad bob dydd.

#### Ymddygiad cymhellol

Mae ymddygiad cymhellol yn golygu gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiad, bygythiadau, cywilydd a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu godi ofn ar y dioddefwr.

Nid yw hwn yn ddiffiniad cyfreithiol.

***Yn ddiweddar mae'r diffiniad wedi cael ei ymestyn i gynnwys dioddefwyr 16 ac 17 oed ac i gynnwys ymddygiad rheoli a chymhellol.***

#### Cynllun Datgelu Trais Domestig – Cyfraith Clare

Mae'r Cynllun Datgelu Trais Domestig yn rhoi hawl i aelodau o'r cyhoedd ofyn i'r Heddlu os oes ganddynt bryder y gallai eu partner fod yn risg iddynt, neu y gallai partner aelod o'r teulu neu ffrind fod yn risg i'r unigolyn hwnnw.

Bydd Cyfraith Clare yn rhoi cymorth i'r bobl hynny sy'n meddwl bod ganddynt bartner sydd efallai yn gweithredu mewn ffordd sy'n awgrymu ei fod/ei bod yn dreisgar. Gall yr unigolyn hwnnw fynd at yr heddlu a gwybod bod ganddo/ganddi hawl i ofyn am wybodaeth am ei bartner/phartner. Bydd yr heddlu'n pwyso a mesur pa wybodaeth y byddant yn rhoi i'r unigolyn a pha gymorth sydd ei angen arno/arni.

Mae'r gyfraith yn rhoi modd i rywun gael gwybod a oes gan ei partner/phartner hanes o drais a phenderfynu a yw am aros gyda'r partner neu beidio.

### Trais ar Sail Rhywedd

Mae trais ar sail rhywedd yn golygu:

a. trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol

b. anffurfio organau cenhedlu benywod

c. gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio)

### Cyswllt rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant

Mae cysylltiad cryf rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant. Ceir hanes o drais domestig yn erbyn y fam yn un o bob tri o achosion amddiffyn plant. Mae pobl ifanc ar aelwydydd treisgar rhwng tair a naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanafu a'u cam-drin, naill ai'n uniongyrchol neu wrth geisio amddiffyn eu rhiant. O'r achosion o gam-drin plant y mae'r NSPCC yn delio â nhw, mae un o bob pump yn ymwneud â cham-drin domestig. Yn 90% o'r achosion hynny, mae pobl ifanc yn bresennol ac yn profi effaith wrth i'r cam-drin ddigwydd; ac yn oddeutu hanner yr achosion, mae'r person ifanc yn cael ei gam-drin hefyd.

## 4.2.8 Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

**Diffiniad:** Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn diffinio FGM fel: pob gweithred (nid llawdriniaeth) sy'n golygu tynnu organau rhywiol allanol merch yn rhannol neu'n llwyr neu anaf i organau rhywiol merch boed am resymau diwylliannol neu resymau antherapiwtig eraill (WHO, 1996).

Yn y DU, mae pob math o FGM yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae'n drosedd i (beth bynnag fo'u cenedligrwydd a'u statws preswylio):

- anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU
- rhoi cymorth i anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU
- rhoi cymorth i ferch i anffurfio ei horganau cenhedlu ei hun yn y DU

- rhoi cymorth o’r DU i berson nad yw o’r DU i anffurfio organau cenhedlu benyw sy’n un o wladolion y DU neu’n breswylydd parhaol yn y DU y tu allan i’r DU.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn drosedd, am y tro cyntaf, i wladolion y DU neu breswylwyr parhaol y DU:

- anffurfio organau cenhedlu benywod mewn gwlad dramor
- rhoi cymorth i anffurfio organau cenhedlu benywod mewn gwlad dramor i un o wladolion neu breswylwyr parhaol y DU – byddai hyn yn cynnwys mynd â merch i wlad dramor ar gyfer cael ei hanffurfio
- rhoi cymorth o'r tu allan i'r DU i berson nad yw o’r DU sydd mewn gwlad dramor i anffurfio organau cenhedlu merch neu fenyw sy’n un o wladolion neu breswylwyr parhaol y DU – mae hyn yn cynnwys mynd â merch i wlad dramor ar gyfer cael ei hanffurfio
- rhoi cymorth i ferch i anffurfio ei horganau cenhedlu ei hun y tu allan i'r DU, hyd yn oed mewn gwledydd lle mae'r arfer yn gyfreithlon.

Os ceir unrhyw wybodaeth neu bryder bod merch mewn perygl uniongyrchol o'i hanffurfio, neu fod ei horganau cenhedlu wedi cael eu hanffurfio, rhaid ei hatgyfeirio ar unwaith o dan y trefniadau amddiffyn plant.

### 4.2.9 Meddiant gan Ysbryd

Diffinnir y term 'cred mewn meddiant gan ysbryd' fel cred bod grym drwg wedi mynd i mewn i blentyn a'i fod yn ei reoli ef/ei rheoli hi. Weithiau mae’r term ‘gwrach’ yn cael ei ddefnyddio ac mae’n cael ei ddiffinio yma fel cred bod plentyn yn gallu defnyddio grymoedd drwg i niweidio eraill. Mae nifer o dermau eraill sy’n gysylltiedig â cham-drin o’r fath gan gynnwys:

- **"Kindoki" neu "ndoki"** - honiadau o ddewiniaeth mewn rhai gwledydd Affricanaidd sy’n arwain at allfwriadau ac arwahaniad i’r rhai yr honnir eu bod yn ymarfer y gelfyddyd. Mae plant yn arbennig o agored i honiadau o’r fath.
- **"Djinn"** - mewn chwedloniaeth Fwslimaidd, ysbryd sydd yn gallu ymrithio yn fod dynol neu anifail a chael dylanwad goruwchnaturiol ar bobl.
- **“Obeah”** – system o gred ymhlith cymunedau, yn bennaf, India’r Gorllewin Prydeinig a’r Guianas, sy’n defnyddio defodau hud i atal anffawd neu i achosi niwed.
- **“Fwdw”** - crefydd sy’n cael ei hymarfer yn bennaf mewn gwledydd y Caribî, yn enwedig Haiti, ac wedi’i syncreteiddio o elfennau defodol Pabyddol ac animistiaeth a hud a lledrith caethweision o Orllewin Affrica, lle mae goruchaf Dduw yn rheoli pantheon mawr o dduwiau lleol a nawdd, hynafiaid wedi’u dwyfoli, a saint, sy'n cyfathrebu â chredinwyr mewn breuddwydion ac eiddo defodol. Gelwir hefyd yn fodwn.
- **“Dewiniaeth Ddu”** - nod Dewiniaeth Ddu yw niweidio eich hun neu rywun arall naill ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol. Mae rhai dewiniaid yn teimlo na

fyddai'n gweithio i frifo rhywun arall, ac yn hytrach y bydden nhw, eu hunain, yn dioddef o ganlyniad.

- **"Swyngyfareddwyr sy'n blant"** - cyhuddiadau bod plant, trwy ddewiniaeth, yn gyfrifol am y problemau economaidd a chymdeithasol mewn teuluoedd. Ym mhob un o'r achosion hyn, gall teuluoedd, gofalwyr a'r plant eu hunain wirioneddol gredu bod grymoedd drwg ar waith. Gall teuluoedd a phlant boeni eu henaid oherwydd y drwg maen nhw'n credu sy'n eu bygwth. Gall cam-drin ddigwydd os bydd rhywun yn ceisio "allfwrw"'r plentyn. Diffinnir hyn yma fel ceisio diarddel ysbrydion drwg o gorff plentyn.

### 4.2.10 PREVENT

Menter gan yr heddlu yw PREVENT. Ei nod yw:

- herio ideoleg eithafol a chefnogi lleisiau prif ffrwd
- torri ar draws y rheini sy'n hyrwyddo eithafiaeth dreisgar a chryfhau sefydliadau lle y gallent fod yn weithgar
- adnabod a chynorthwyo unigolion sy'n cael eu targedu a'u recriwtio gan eithafwyr treisgar
- cynyddu gallu cymunedau i wrthsefyll ac ymgysylltu ag eithafwyr treisgar
- delio â chwynion yn effeithiol
- datblygu gwybodaeth
- gwella cyfathrebu strategol

Rhaid i staff ddilyn y gweithdrefnau diogelu os ydynt yn sylwi ar unrhyw ymddygiad a fyddai'n achos pryder ymhlith aelodau o gymuned y Coleg neu os ydynt yn clywed unrhyw farn neu safbwyntiau eithafol.

### 4.2.11 Hunanladdiad

Ar gyfartaledd, mae 300 o bobl yn cyflawni hunanladdiad yng Nghymru bob blwyddyn. Nid yw hyn yn llawer o'i gymharu â'r ffactorau eraill sy'n achosi marwolaethau, ond **mae'n un o'r prif achosion ymhlith pobl ifanc, ac mae'n gyfrifol am bron i un o bob pum marwolaeth ymhlith dynion rhwng 15 a 24 oed, ac un o bob deng marwolaeth ymhlith merched o'r un oedran.** Bob blwyddyn, mae dwywaith gymaint o bobl yn marw o ganlyniad i hunanladdiad yng Nghymru ag sy'n marw mewn damweiniau traffig ffordd, a hynny ym mhob grŵp oedran. Mae'r ystadegau ar gyfer plant a phobl ifanc yn dychryn rhywun, ond mae hunanladdiad yn effeithio ar bobl o bob oed. O ganlyniad, mae'n bwysig iawn ein bod yn darparu ymyriadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc, pobl ganol oed a phobl hŷn, er mwyn darparu dull gweithredu cynhwysfawr. (Siarad â fi, Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Leihau Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru)

### 4.2.12 Priodas Dan Orfod

#### Y Gwahaniaeth rhwng Priodas Dan Orfod a Phriodas wedi'i Threfnu

Mae'r traddodiad o briodasau wedi'u trefnu wedi gweithio'n llwyddiannus o fewn nifer o gymunedau a nifer o wledydd ers amser maith. Rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng priodas dan orfod a phriodas wedi'i threfnu. Yn achos **priodasau wedi'u trefnu** mae teuluoedd y darpar ŵr a gwraig yn chwarae rôl amlwg yn y broses o drefnu'r briodas, ond yr unigolion sy'n penderfynu o hyd a ydynt am dderbyn y trefniadau. Yn achos **priodas dan orfod nid** yw o leiaf un parti yn cydsynio i'r briodas, ac mae rhyw elfen o orfodaeth yn gysylltiedig â'r trefniadau.

Mae priodas dan orfod yn fater o drais yn erbyn menywod yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o achosion yn cynnwys menywod ifanc a merched rhwng 13 a 30 oed, er bod tystiolaeth yn awgrymu bod cynifer â 15% o ddioddefwyr yn wrywod.

Mae priodas dan orfod yn drosedd a gall y tramgwyddau gynnwys cipio, trais corfforol ac ymddygiad bygythiol. Mae cyfathrach rhywiol heb gydsyniad yn cael ei ystyried yn drais rhywiol.

#### Mae Priodas Dan Orfod yn drosedd, o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, mae'n cynnwys:

- mynd â rhywun dramor i'w orfodi i briodi (p'un a yw'r briodas dan orfod yn digwydd neu beidio)
- priodi rhywun sydd heb alluedd meddyliol i gydsynio i'r briodas (pa un a roddir pwysau ar y person neu beidio)
- torri Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod - bydd y rhwymedi sifil o gael Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod drwy'r llysoedd teulu yn parhau i fodoli ochr yn ochr â'r trosedd newydd, fel y gall y dioddefwyr ddewis sut y maent am gael cymorth.

#### Sut i weithredu os ydych yn amau bod myfyriwr yn cael ei orfodi i briodi yn erbyn ei ewyllys

Os ydych yn amau bod un o'ch myfyrwyr yn cael ei orfodi i briodi yn erbyn ei ewyllys, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Dynodedig a fydd yn asesu'r achos ac yn penderfynu p'un ai i gysylltu â MEWN, Gwasanaethau Cymdeithasol neu fynd yn uniongyrchol i'r Uned Priodasau Dan Orfod gyda'r heddlu.

#### Mathau Eraill o Gam-drin sy'n Berthnasol i Oedolion Agored i Niwed:

### 4.2.13 Cam-drin Ariannol/Materol

Mae hwn yn cynnwys lladrad, twyll, pwysau ynghylch ewyllysiau, eiddo neu etifeddiaeth neu gamddefnyddio budd-daliadau.

## 4.3 Ymateb i Honiad - Canllawiau i Staff a Myfyrwyr

Os bydd myfyriwr yn dweud wrth aelod o staff ei fod wedi cael ei gam-drin, dylid gwrando ar y myfyriwr yn ofalus. Mae'r pwyntiau canlynol yn cynnig canllawiau ar sut i ddelio â myfyriwr sy'n gwneud honiad.

Dylai'r aelod o staff sy'n clywed am yr honiad ymddwyn yn bwyllog.

Dylid gwrando yn ofalus ar y myfyriwr, ond ni ddylid cyfweld ag ef na gofyn iddo ailadrodd yr hyn a ddywedir. Pan ddaw'n glir bod y myfyriwr yn honni iddo gael ei gam-drin, mae'n bwysig bod y myfyriwr yn cael gwybod, mewn ffordd garedig na allwch gadw'r wybodaeth i chi'ch hun, a bod dyletswydd gyfreithiol arnoch i drosglwyddo'r wybodaeth i'r Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant. **Ni allwch gynnig cyfrinachedd i'r myfyriwr.**

Peidiwch â chyfweld â'r myfyriwr, gallwch holi'r myfyriwr heb bwysau er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn mae'r myfyriwr yn ei ddweud wrthych. Gwnewch yn siŵr bod y cwestiynau yn syml a pheidiwch ag arwain y sgwrs. Er enghraifft, os yw myfyriwr yn dweud ei fod wedi cael dolur, gofynnwch 'Sut cest ti ddolur' yn hytrach na, 'Oedd rhywun wedi dy fwrw di?''. Dylid bod yn ofalus i sicrhau nad yw rhagdybiaethau'n cael eu gwneud ynghylch yr hyn y mae'r myfyriwr yn ei ddweud.

Cyn gynted â phosibl, gwnewch nodyn o'r holl fanylion, gan gynnwys yr amser, y lleoliad, pwy oedd yn bresennol, beth gafodd ei ddweud ar ffurflen CP1 (ar gael yn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr). Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud nodyn o'r hyn a ddywedwyd air am air yng ngeiriau'r myfyriwr, neu mor agos â phosibl i hynny.

Mae'n rhaid rhoi'r ffurflen CP1 wedi'i chwblhau i'r Swyddog Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed. Ni ddylid cadw unrhyw gopïau papur neu electronig eraill.

Bydd y Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed yn esbonio'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd er mwyn i chi allu rhoi gwybod i'r myfyriwr beth fydd y cam nesaf. Gall fod yn briodol i'r Swyddog Diogelu Dynodedig gwrdd â'r myfyriwr.

**Os nad yw'r Swyddog Diogelu Dynodedig ar gael, dylid ceisio cyngor gan Wasanaethau Cymdeithasol ar y camau i'w cymryd.**

Y prif rif ffôn i gyfeirio achosion at yr **Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yw 01792 635700.**

Yn y sefyllfa hon, mae'n rhaid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Dynodedig a'i ddiweddaru ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd/pryderon a godwyd mor gynnar â phosibl.

Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai myfyrwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Efallai y bydd rhaid i ofalwr enwebedig neu athro'r myfyriwr fod yn bresennol i weithredu fel hwyluswr neu mewn rhinwedd gefnogol.

Os yw'r myfyriwr ar raglen 14-16, bydd y Swyddog Diogelu Dynodedig yn cysylltu â Swyddog Diogelu Dynodedig yr ysgol i drafod cyfeirio'r mater â nhw. Caiff y sgwrs â'r ysgol ei chofnodi ar ffurflen CP1 y coleg.

Os yw'r myfyriwr yn 18 oed neu'n hŷn, yn cael ei gam-drin mewn rhyw ffordd, ond nid yw'n cael ei ystyried yn oedolyn agored i niwed, ond fel coleg rydym yn ymwybodol y gall fod brodyr a chwiorydd eraill o dan 18 oed yn yr amgylchedd, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Dynodedig gan ddefnyddio ffurflen CP1.

Cynigir cymorth Cwnselwr/Mentor Myfyrwyr mewnol i ddysgwyr sydd wedi gwneud datgeliad. Os yw'r achos yn cynnwys cam-drin rhywiol/treisio, dylid cynnig cyfeirio'r achos at y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol fel arfer.

## 4.4 Cofnodi Honiad bod Myfyriwr wedi Cam-drin Myfyriwr Arall

Os bydd myfyriwr yn honni bod myfyriwr arall wedi cam-drin plentyn neu oedolyn agored i niwed, rhaid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Dynodedig ar unwaith. Fel arfer bydd y Swyddog Diogelu Dynodedig yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn penderfynu a ddylid cysylltu â'r heddlu neu beidio.

Bydd rhieni neu ofalwyr y ddau fyfyriwr yn cael gwybod a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch gwahardd y myfyriwr a gyhuddir dros dro nes clywir canlyniad unrhyw ymchwiliad gan Wasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu.

## 4.5 Cofnodi a Delio â Honiadau o Gam-drin yn erbyn Aelodau o Staff

### 4.5.1 Cyflwyniad

Mewn achosion prin, mae aelodau o staff sefydliadau addysg wedi bod yn gyfrifol am gam-drin plant. Gan eu bod yn dod i gysylltiad mor aml â phlant a phobl ifanc mewn amryw o sefyllfaoedd, gan gynnwys y rôl ehangach o ofalu, mae'n bosibl y bydd honiadau o gam-drin yn cael eu gwneud yn eu herbyn. Gall perthynas staff â'r myfyrwyr arwain at fyfyrwyr neu rieni yn gwneud honiadau yn eu herbyn. Mae'r coleg yn cydnabod y gall honiad o gam-drin plant gael ei wneud yn erbyn aelod o staff am amryw o resymau, a gall ffeithiau'r honiad fod yn wir neu'n anwir. Felly mae'n rhaid i'r coleg sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli sefyllfaoedd lle mae honiadau o gam-drin.

Mae'r gweithdrefnau sy'n dilyn wedi cael eu llunio ar ôl ymgynghori â staff, undebau a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Maen nhw'n amlinellu'r camau i'w dilyn a'r ystyriaethau ar gyfer cofnodi ac yna reoli honiad o gam-drin yn erbyn aelod neu aelodau o staff.

Mae'n hollbwysig bod y rhai sy'n delio â'r honiad yn cadw meddwl agored a bod yr ymchwiliadau yn drwyadl a does dim oedi.

Mae'r coleg yn cydnabod bod Deddf Plant 1989 yn datgan mai lles y plentyn sydd o'r pwys mwyaf. Mae hefyd yn cydnabod y gall penderfyniadau brysiog neu anwybodus ynghylch aelod o staff niweidio enw da, hyder a gyrfa unigolyn am byth. Felly, bydd y rhai sy'n delio â honiadau o'r fath yn y coleg yn gwneud hynny mewn modd sensitif ac yn gweithredu mewn ffordd ofalus a phwyllog.

### 4.5.2 Cwmpas

Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i bob aelod o staff, boed yn staff addysgu, staff gweinyddol, rheolwyr neu staff cymorth yn ogystal â gwirfoddolwyr. Defnyddir y gair "staff" i gyfeirio at bob un o'r grwpiau hyn.

### 4.5.3 Gweithdrefnau: Gwneud Honiad ynghylch Pryderon am Aelod Arall o Staff

Mae dwy ffordd o godi pryderon am ymddygiad aelod arall o staff. Gall staff naill ai dweud wrth y Pennaeth yn uniongyrchol neu gallant ddefnyddio'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban.

Os ydynt yn dewis defnyddio'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban, mae'n rhaid i'r aelod o staff fod yn ymwybodol nad oes modd gwarantu na ddatgelir ei enw os yw'r mater yn cael ei drosglwyddo i sylw'r heddlu neu sefydliad allanol arall. Dylai'r Datgelwr gysylltu â'r Clerc i'r Llywodraethwyr (Ffôn: 01792 414222) a fydd yn trefnu cysylltiad rhwng un o'r Aseswyr Dynodedig a'r Datgelwr. Bydd yr aseswr dynodedig yn argymell i'r Pennaeth sut y dylid ymdrin â'r honiad. Yna bydd y Pennaeth yn penderfynu sut i ddelio â'r mater mewn cydweithrediad â'r Swyddog Amddiffyn Plant a fydd yn dilyn y weithdrefn arferol.

### 4.5.4 Gweithdrefnau: Derbyn Honiad gan Blentyn

Dylai aelod o staff sy'n derbyn honiad gan blentyn ynghylch aelod arall o staff ddilyn y canllawiau yn Atodiad 5.2.1 ar gyfer delio â datgeliad.

Dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth ar unwaith am yr honiad, oni bai mai'r Pennaeth yw'r un y gwneir yr honiad yn ei erbyn, ac felly dylid rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r Llywodraethwr dynodedig.

Pan fydd honiad yn cael ei wneud, yn ogystal ag ymgynghori â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r heddlu, dylai'r Pennaeth (neu'r unigolyn dynodedig os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth):

i) Cael manylion ysgrifenedig am yr honiad wedi'u harwyddo a'u dyddio gan y sawl a dderbyniodd yr honiad. (Nid gan y myfyriwr a wnaeth yr honiad a/neu oedd yn destun yr honiad). Dylai'r manylion ysgrifenedig gael eu cydarwyddo a'u dyddio gan y Pennaeth (neu'r unigolyn dynodedig).

ii) Cofnodi gwybodaeth am amserau, dyddiadau, lleoliadau ac enwau tystion posibl.

### 4.5.5 Y Weithdrefn Gychwynnol i'w Dilyn gan y Pennaeth (neu'r unigolyn dynodedig) yn achos Honiad o Gam-drin / Ymosodiad yn erbyn unrhyw Aelod o Staff y Coleg

1. Os yw aelod o staff yn dod i wybod am honiad y mae myfyriwr yn ei wneud ei fod wedi cael ei gam-drin / ymosod arno gan aelod o staff, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth ar unwaith.

2. Pan fydd y Pennaeth wedi derbyn yr honiad mae'n **rhaid** iddo ffonio'r Prif Swyddog yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am Ddiogelu (01792 637522) er mwyn trafod yr honiad. Ni all unrhyw ymchwiliad mewnol gychwyn nes bod y mater wedi cael ei drafod â'r Prif Swyddog.

   **Nid oes gwahaniaeth a yw'r honiad dan sylw yn cael ei ystyried yn un o gysylltiad corfforol amhriodol lefel isel (neu unrhyw fath arall o gam-drin lefel isel) y gellid, ym marn y coleg, ei ddatrys drwy ymchwiliad mewnol. Pan fydd honiad wedi'i wneud mae'n rhaid rhoi gwybod i'r unigolyn a enwir uchod am y mater.**

3. Pwrpas y Drafodaeth Strategaeth hon yw penderfynu a yw'r honiad o natur ddifrifol ac felly bydd angen cynnal Uwch Gyfarfod Strategaeth, neu benderfynu nad yw'r honiad yn bodloni'r trothwy ar gyfer cyfarfod o'r fath, ac felly gellir ei drosglwyddo yn ôl i'r coleg ymchwilio iddo a'i drin fel mater mewnol.

4. Mae'r meini prawf a fydd yn penderfynu a yw'r trothwy hwnnw wedi cael ei fodloni neu beidio fel a ganlyn:

   - bod achos i amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol **a/neu**
   - cyflawnwyd trosedd yn erbyn plentyn **a/neu**
   - mae'r gweithiwr unigol wedi ymddwyn tuag at blentyn mewn ffordd sy'n awgrymu nad yw'n addas i weithio gyda phlant.

5. Yn ogystal â'r uchod, ystyriaeth bellach fydd a yw'r heddlu wedi cael neu'n debygol o gael cwyn am yr honiad.

6. Os yw mwy nag un o'r meini prawf hyn yn cael eu bodloni bydd Uwch Gyfarfod Strategaeth yn cael ei gynnal, yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, mae pob sefyllfa yn wahanol a bydd yr amgylchiadau i gyd yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch cynnal cyfarfod neu beidio.

7. Pan fydd cyfarfod yn cael ei gynnal, caiff ei gynnal o fewn dau ddiwrnod gwaith o'r drafodaeth, a bydd manylion ynghylch cyfansoddiad, pwrpas a chanlyniad y cyfarfod i'w gweld ym mharagraff 4.3.6.2 o'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 (tudalennau 309 i 313).

8. I grynhoi, caiff cyfarfod ei gadeirio gan y Prif Swyddog o Wasanaethau Cymdeithasol ac fel rheol bydd y Pennaeth, yr heddlu, y Gwasanaeth Iechyd (ac o bosib cynrychiolydd o adran Adnoddau Dynol y Coleg) yn bresennol. Caiff cofnodion eu cymryd a'u trin yn gyfrinachol.

9. Bydd y cyfarfod yn trafod yr honiad ac yn cytuno ar y camau nesaf i'w cymryd o ran unrhyw ymchwiliad a sut i ddelio â'r aelod o staff yn ystod cyfnod yr ymchwiliad.

10. Os yw'n gymwys, bydd cyfarfod(ydd) dilynol yn debygol o gael ei gynnal(eu cynnal) i ddod â'r broses i ben yn briodol.

### 4.5.6 Ymholiadau ac Ymchwiliadau

Ni ddylid drysu rhwng ymholiadau amddiffyn plant gan Wasanaethau Cymdeithasol neu’r heddlu ac ymholiadau disgyblu mewnol y coleg (a fyddai'n cychwyn dim ond yn dilyn gweithdrefn 4.5.4). Efallai y bydd y coleg yn gallu defnyddio canlyniad ymholiadau asiantaeth allanol fel rhan o'i weithdrefnau ei hun.

Bydd y coleg yn cynnal ei ymholiadau mewnol ei hun heb eu penderfynu tra bo ymchwiliadau ffurfiol yr heddlu neu Wasanaethau Cymdeithasol yn mynd rhagddynt; gallai weithredu fel arall niweidio'r ymchwiliad. Bydd unrhyw ymchwiliadau mewnol yn cydymffurfio â gweithdrefnau disgyblu staff cyfredol.

Os oes ymchwilid gan asiantaeth allanol, er enghraifft yr heddlu, fel rheol bydd y Pennaeth (neu'r unigolyn dynodedig) yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at y trafodaethau strategaeth rhyngasiantaethol. Mae'r Pennaeth (neu'r unigolyn dynodedig) yn gyfrifol am sicrhau bod y coleg yn rhoi pob cymorth gydag ymholiadau'r asiantaeth. Bydd yn sicrhau bod y cyfrinachedd priodol yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r ymholiadau, er lles yr aelod o staff y gwneir yr honiad yn ei erbyn. Bydd y Pennaeth (neu'r unigolyn dynodedig) yn cynghori'r aelod o staff y dylai ymgynghori â chynrychiolydd, er enghraifft, undeb llafur.

Yn amodol ar wrthwynebiadau gan yr heddlu neu asiantaeth ymchwilio arall, bydd y Pennaeth (neu'r unigolyn dynodedig) yn:

i) rhoi gwybod i'r plentyn/plant/rhiant/gofalwr sy'n gwneud yr honiad bod yr ymchwiliad yn digwydd a beth fydd y broses debygol.

ii) sicrhau bod rhieni/gofalwyr y plentyn sy'n gwneud yr honiad yn gwybod bod yr ymchwiliad yn digwydd a beth fydd y broses debygol.

iii) rhoi gwybod i'r aelod o staff y mae'r honiad yn cael ei wneud yn ei erbyn bod yr ymchwiliad yn digwydd a beth fydd y broses debygol.

iv) rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr a/neu'r Llywodraethwr dynodedig am yr honiad a'r ymchwiliad.

Bydd y Pennaeth (neu'r unigolyn dynodedig) yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r honiad.

Gall sylw'r wasg yn ystod ymchwiliad i honiad ychwanegu at y problemau i'r aelod o staff a gall hyd yn oed amharu ar yr ymchwiliad. Bydd y coleg yn rheoli'r holl gysylltiadau cyfryngau mewn modd sensitif ac yn briodol. Yn anffodus, yn aml iawn bydd y cyfryngau yn dod i wybod am honiadau trwy rieni neu fyfyrwyr. Bydd unrhyw gyfarfod briffio staff a llywodraethwyr yn pwysleisio'r angen i osgoi sylw yn y cyfryngau. Mae staff yn cael eu diogelu gan Ddeddf Hawliau Dynol 2000 sy'n diogelu "preifatrwydd". Bydd yn hollbwysig rhoi gwybod i staff am unrhyw arwyddion cynnar o sylw gan y cyfryngau neu yn y cyfryngau.

#### Canlyniadau Posibl o'r Cyfarfod Strategaeth

Mae pedwar canlyniad posibl i'r cyfarfod strategaeth. Os yw'r mater yn cael ei gyfeirio i'r heddlu neu Wasanaethau Cymdeithasol, caiff y coleg ei arwain gan yr asiantaethau hyn wrth benderfynu sut i ddelio â'r mater. Mae hyn yn

debygol o arwain at ymchwiliad allanol. Bydd penderfyniadau ynghylch gwahardd yr aelod o staff dros dro neu ddilyn y drefn ddisgyblu yn cael ei wneud drwy ymgynghori â'r sefydliadau hyn. Gall y cyfarfod strategaeth benderfynu y gall y coleg ymchwilio i'r mater ac adrodd yn ôl ar y canlyniad i'r grŵp strategaeth. Os mai dyma yw'r achos, caiff y mater ei drafod drwy ddefnyddio trefn Disgyblu'r Coleg. Y pedwerydd casgliad yw y gallai'r cyfarfod strategaeth benderfynu nad oes unrhyw achos i'w ymchwilio.

### 4.5.7 Gwahardd Staff dros dro

Cyfeiriwch at y drefn ddisgyblu yn adran 12 ac 13, i gael canllawiau ar wahardd staff dros dro.

Dylid ystyried y dewisiadau eraill, e.e. absenoldeb â thâl; cytuno i beidio â dod i'r gwaith; newid, neu beidio â chyflawni, dyletswyddau penodol.

Dylai rhieni/gofalwyr y plentyn sy'n gwneud yr honiad gael gwybod bod yr aelod o staff wedi cael ei wahardd dros dro. Dylid gofyn iddynt drin yr wybodaeth fel gwybodaeth gyfrinachol. Dylid ystyried rhoi gwybod i'r myfyriwr sy'n gwneud yr honiad fod yr aelod o staff wedi cael ei wahardd dros dro.

### 4.5.8 Yr Ymchwiliad Disgyblu

Dylid cynnal yr ymchwiliad disgyblu yn unol â gweithdrefnau disgyblu staff cyfredol.

Dylai'r myfyriwr/wyr sy'n gwneud yr honiad a/neu eu rhieni gael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliad a'r gweithdrefnau. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r aelod o staff ddychwelyd i'r coleg (os yw wedi cael ei wahardd dros dro).

Dylai’r Pennaeth (neu’r unigolyn dynodedig) ystyried pa wybodaeth a ddylai fod ar gael i boblogaeth gyffredinol y coleg.

### 4.5.9 Honiadau nad oes sail iddynt

Wrth gwrs, gall honiadau celwyddog fod yn arwydd o broblemau cam-drin o fath arall. Dylid cadw cofnod ac ystyried cyfeirio'r myfyriwr at Wasanaethau Cymdeithasol er mwyn i asiantaethau eraill weithredu ar yr wybodaeth.

Drwy ymgynghori â'r uwch aelod o staff dynodedig a/neu'r Llywodraethwr dynodedig, bydd y Pennaeth yn:

i) rhoi gwybod i'r aelod o staff y mae'r honiad yn cael ei wneud yn ei erbyn ar lafar ac ar bapur nad yw unrhyw gamau disgyblu neu amddiffyn plant eraill yn cael eu cymryd. Dylid ystyried cynnig cwnsela/cymorth.

ii) rhoi gwybod i rieni/gofalwyr y dioddefwr honedig bod yr honiad wedi cael ei wneud a'r canlyniad.

iii) os cafodd yr honiad ei wneud gan blentyn heblaw'r dioddefwr honedig, dylid ystyried rhoi gwybod i rieni/ofalwyr y plentyn hwnnw.

iv) llunio adroddiad yn amlinellu'r honiad a rhoi rhesymau am y casgliad nad oedd unrhyw sail iddo a chadarnhau bod y camau uchod wedi cael eu cymryd.

**4.5.10 Cofnodion**

Mae'n bwysig bod dogfennau yn ymwneud â'r ymchwiliad yn cael eu cadw mewn lle diogel, ynghyd â chofnod ysgrifenedig o'r canlyniad ac, os yw camau disgyblu yn cael eu cymryd, bod y manylion yn cael eu cadw ar ffeil bersonol a chyfrinachol yr aelod o staff.

Os yw aelod o staff yn cael ei ddiswyddo neu'n ymddeol cyn bod y broses ddisgyblu wedi'i chwblhau, dylai gael gwybod am ddyletswydd statudol y coleg i roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg o dan weithdrefnau "Rhestr 99".

**4.5.11 Monitro Effeithiolrwydd**

Os yw honiad wedi cael ei wneud yn erbyn aelod o staff, dylai'r Llywodraethwr dynodedig, ynghyd â'r uwch aelod o staff sydd â'r prif gyfrifoldeb, pan ddaw'r ymchwiliad ac unrhyw gamau disgyblu i ben, ystyried a oes unrhyw faterion sy'n codi a allai arwain at wella gweithdrefnau a/neu bolisïau'r coleg a ddylai gael eu dwyn at sylw'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Dylid hefyd ystyried anghenion hyfforddi staff.

## 5. Dogfennau Cysylltiedig

**Dylid darllen y polisi hwn law yn llaw â'r canlynol:**

Polisi Disgyblu Myfyrwyr
Polisi Cyffuriau ac Alcohol Myfyrwyr
Polisi Gwrth-fwlio Myfyrwyr
Polisi Cyn-droseddwyr sy'n Fyfyrwyr
Polisi Chwythu'r Chwiban Staff
Gweithdrefnau Disgyblu Staff

## 6. Yr Iaith Gymraeg

6.1 Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a bydd yn ceisio rhoi sylw i anghenion siaradwyr Cymraeg a'u cefnogi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg.

## 7. Atodiad 1

**AMDDIFFYN PLANT**

**(GAN GYNNWYS MYFYRWYR 14-16 OED AC OEDOLION AGORED I NIWED)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | |
| **Enw'r unigolyn sy'n adrodd datgeliad:** | |
| **Swydd yr unigolyn sy'n adrodd datgeliad:** | |
| **Enw'r myfyriwr:** | |
| **Dyddiad Geni'r myfyriwr:** | |
| **Cwrs:** | |
| **Tiwtor:** | |

| | |
|---|---|
| **Enw'r unigolyn a amheuir o gam-drin:** | |
| **Manylion y cam-drin honedig:**<br>**(gan gynnwys dyddiadau, amser a lle'r cam-drin honedig)** | |
| **Manylion pobl iau neu oedolion agored i niwed eraill a allai fod wedi cael cyswllt â'r camdriniwr honedig (Enwau a dyddiadau geni)** | |
| **Manylion ac oedran pobl eraill sy'n byw yn y cartref** | |

| | |
|---|---|
| **Camau a gymerwyd** | |
| **Llofnodwyd:**<br>**(Person Dynodedig)** | |
| **Llofnodwyd:**<br>**(Person sy'n Adrodd)** | |

## 7. ATODIAD 2

### Canllawiau ar gyfer Delio â Staff y mae Myfyriwr wedi gwneud honiad yn ei erbyn

**Honiad** - rydych yn cael gwybod am y cam-drin

↓

Esboniwch i'r myfyriwr mor gynnar â phosibl yn y broses efallai y bydd rhaid i chi adrodd am y mater.

→

**Bydd rhaid i chi:**

1. **Gwrando'n ofalus** i'r honiadau y mae'r myfyriwr yn eu gwneud, gan ofyn i'r myfyriwr **egluro** unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.
2. Pwysleisio i'r myfyriwr nad yw wedi gwneud unrhyw beth o'i le ac nid ei fai ef/ei bai hi yw hyn.
3. **Cofnodwch** y ffeithiau hyn **yn fanwl** ar CP1. Os nad yw CP1 wrth law, cofnodwch fanylion am yr honiad ar ddarn o bapur gan sicrhau bod y canlynol yn cael ei gofnodi fan lleiaf:
   a. eich enw
   b. enw llawn y myfyriwr
   c. cyfeiriad y myfyriwr
   ch. dyddiad geni'r myfyriwr
   d. enw a rhif ffôn y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant/cyfreithiol am y myfyriwr
4. **Darllenwch** y ffeithiau a gofnodwyd i'r myfyriwr er mwyn iddo eu **cadarnhau fel manylion cywir.**
5. Rhowch wybod i'r myfyriwr am yr hyn rydych yn ei wneud a beth sy'n digwydd drwy gydol y broses.
6. Rhowch yr holl wybodaeth ar CP1 cyn gynted ag y gallwch wneud hynny (bydd y Swyddogion Diogelu yn gallu rhoi'r ffurflen i chi).
7. Dylid **rhoi gwybod** i'r **Swyddog Diogelu Dynodedig ar unwaith** a chael copi o'r ffurflen CP1 i ddelio â'r honiad. **Peidiwch ag anfon CP1 yn y post.**

**PEIDIWCH AG:**

- Addo cyfrinachedd. Byddwch yn onest am eich sefyllfa, pwy y mae'n rhaid i chi ddweud wrthynt a pham
- Gofyn cwestiynau arweiniol (e.e. oedd eich mam wedi gwneud hyn i chi?)
- Rhoi pwysau ar y myfyriwr i roi mwy o wybodaeth na'r hyn y mae'n barod i'w rhoi
- Gwneud addewidion (e.e. fydd hyn byth yn digwydd eto)

↓

Dylech barhau i roi cymorth i'r myfyriwr wrth aros am gyfarwyddyd pellach gan y Swyddog Diogelu Dynodedig ar Ddyletswydd